



# Rhaglen Gyflawn

Gwasanaeth Democratiaeth  
Swyddfa'r Cyngor  
CAERNARFON  
Gwynedd  
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MAWRTH, 11EG GORFFENAF, 2017**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Sion Owen**

**01286 679665**

[sionmareduddowen@gwynedd.llyw.cymru](mailto:sionmareduddowen@gwynedd.llyw.cymru)

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 3 Gorffennaf 2017)

# **PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD**

## **AELODAETH (15)**

### **Plaid Cymru (8)**

Y Cynghorwyr

Annwen Daniels  
Nia Wyn Jeffreys  
Linda Ann Jones  
Gareth A. Roberts

Annwen Hughes  
Charles Wyn Jones  
Olaf Cai Larsen  
Catrin Wager

### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

Dylan Bullard  
Anne Lloyd Jones

John Brynmor Hughes  
Dewi Wyn Roberts

Hefin Underwood

### **Llais Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd Anwen J. Davies

### **Llais Annibynnol Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd Dewi Owen

### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-Gadeirydd i'r Pwyllgor hwn ar gyfer 2017-18.

## 2. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 4. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 5. COFNODION

4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 4ydd Ebrill 2017 fel rhai cywir.

## 6. ROL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cyflwyniad byr ar rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

## 7. RHAGLEN WAITH

8 - 11

I adnabod eitemau ar gyfer Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2017-18.

## 8. CROESO AC ANWYTHO

Cyfle i werthuso'r dyddiau croesawu ac anwytho a gynhaliwyd yn dilyn yr etholiadau diweddar.

## 9. DYSGU A DATBLYGU

12 - 19

I drafod y cyfleon Dysgu a Datblygu sydd ar gael i Aelodau.

---

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DYDD MAWRTH, 4 EBRILL 2017

---

**Yn bresennol:** Y Cyngorydd Lesley Day (Is-gadeirydd yn y gadair).

**Y Cynghorwyr:** Annwen Daniels, Jean Forsyth, E. Selwyn Griffiths, Annwen Hughes, Jason Humphreys, Anne Lloyd Jones, Charles W. Jones, Dilwyn Morgan a Michael Sol Owen.

**Swyddogion:** Geraint Owen (Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Thomas G.Ellis a Dylan Fernley.

### 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

### 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd, 2016 fel rhai cywir.

### 3. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

Cyflwynwyd – drafft o'r adroddiad sydd i'w gyflwyno i'r Cyngor ym mis Mehefin 2017 yn amlinellu'r gefnogaeth i aelodau sydd wedi ei wireddu hyd yma dros gyfnod y Cyngor hwn, ynghyd â'r elfennau sy'n parhau i gael eu datblygu ar gyfer aelodau etholedig.

Manteisiodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar y cyfle i ddiolch i'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a gweddill y Tîm am eu cefnogaeth i'r aelodau dros gyfnod y Cyngor hwn. Diolchodd hefyd i Arwel Ellis Jones, oedd bellach wedi ymddeol yn hyblyg o'i swydd fel Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol, ac yn aros ymlaen am gyfnod i gyflwyno cyngorwyr i waith y Cyngor newydd ar ôl yr etholiadau ym Mai. Diolchodd i ddau Gadeirydd y pwyllgor dros gyfnod y Cyngor hwn, y Cyngorwyr Lesley Day a Thomas G.Ellis, a dymunodd y gorau i'r aelodau hynny fyddai'n sefyll i lawr o'r Cyngor ym mis Mai.

Nodwyd y byddai dyddiad y Cyngor llawn yn yr ail bwynt bwled o'r Trefniadau Llywodraethu dan y pennawd 'Beth sydd wedi newid yn y cyfnod ers 2012?' yn cael ei gywiro i ddarllen yr 2il o Fawrth, 2017.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:-

- Nodwyd, er bod y wefan yn rhestru dyddiadau cyfarfodydd ymchwiliadau craffu, nad oedd dogfennau ar gael ar gyfer y cyfarfodydd hynny. Atebodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd nad oedd rhaglenni a nodiadau cyfarfodydd ymchwiliadau craffu yn ddogfennau cyhoeddus ac mai'r aelodau'n unig oedd yn eu gweld. Nododd hefyd fod gwaith ar droed i ddatblygu Modern.gov ymhellach.
- Nodwyd nad oedd llawer o gyfeiriad yn yr adroddiad blynyddol at y ddarpariaeth TG i aelodau, er i'r Grŵp Ffocws dreulio cryn amser yn edrych ar hynny, ond croesawyd y bwriad i symud o'r Ipad i offer mwy defnyddiol yn y Cyngor newydd. Nodwyd y byddai cyfle i drafod y gofynion TG yn llawn o dan yr eitem nesaf.

## **PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

### **4. ETHOLIADAU LLYWODRAETH LEOL 2017**

Cyflwynwyd - adroddiad yn diweddarar y pwyllgor ar y trefniadau anwytho i aelodau yn dilyn etholiadau 4 Mai, 2017.

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd gyflwyniad byr ar drefniadau'r etholiadau, gan gyfeirio at:-

- Y sefyllfa gyfredol
- Amserlen
- Anwytho

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd:-

- Y byddai'r aelodau yn arwyddo i dderbyn y swydd wrth ymweld â'r stondin Côt Ymddygiad ar y Dyddiau Croeso ar y 9fed a'r 10fed o Fai a bod hynny'n dderbyniol yn gyfreithiol.
- Y byddai'n rhaid edrych fesul achos ar sefyllfa'r aelodau hynny sy'n gwasanaethu ar gyrrff allanol, ond ddim yn cael eu hail-ethol ar y Cyngor ar ôl Mai.

Dangoswyd y fersiwn ddiweddaraf o'r Porth Aelodau a gofynnwyd i'r aelodau gysylltu â'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, neu aelod o'r Tîm, os hoffent gyflwyno syniadau o ran sut i ddatblygu'r porth ymhellach.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ddiweddariad o'r sefyllfa o ran y ddarpariaeth TG i aelodau o fis Mai ymlaen. Nododd:-

- O ganlyniad i farn wahanol ymhlith aelodau'r Grŵp Ffocws (tri o'r farn y dylid safoni ar y Microsoft Surface Pro 4, un eisiau'r Surface Pro 4 at ei ddefnydd ei hun, ond yn hapus i eraill gael y dewis ac un yn ffafrio'r Ipad Air 2 ar gyfer pawb) y gofynnwyd iddo ef, fel Pennaeth y Gwasanaeth Democrataidd, ddod i benderfyniad ar y mater.
- Iddo bwysu a mesur yn ofalus, gan gymryd i ystyriaeth farn y mwyafrif ac ymgynghori gyda'r swyddogion a'r Dirprwy Arweinydd, oedd yn aelod o'r Grŵp Ffocws, cyn penderfynu ar y Microsoft Surface Pro 4, ar y sail ei fod yn cynnig llawer mwy nag sy'n bosib' gyda'r mathau eraill o gyfarpar.
- Mai'r bwriad dros amser fyddai symud yn llwyr i'r Surface Pro 4, ac er y byddai anogaeth i bawb ddefnyddio'r Surface Pro 4 o'r cychwyn, caniateid i aelodau sy'n dychwelyd barhau i ddefnyddio'r Ipad hyd oni fyddai'n amser adnewyddu eu cyfarpar.
- Byddai hawl hefyd i aelodau ddefnyddio eu teclynnau personol eu hunain ac 'roedd yr Uned TG yn ffyddiog y gallent gefnogi'r offer hwnnw hefyd.

Mynegodd y Cadeirydd ei siomedigaeth na chafodd y pwyllgor hwn y cyfle i ddod i benderfyniad ar y mater a gofynnodd i'r aelodau hynny oedd yn aelodau o'r Grŵp Ffocws gyflwyno eu sylwadau.

Nododd pob un o aelodau'r grŵp eu bod yn gefnogol i benderfyniad y Pennaeth. Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd bod yr amserlen prynu'r cyfarpar yn golygu nad oedd yn bosib' i'r Grŵp Ffocws adrodd yn ôl i'r pwyllgor.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd trefnu hyfforddiant buan i'r aelodau ar yr offer newydd. Atebodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd fod hyfforddiant wedi ei drefnu ym Mehefin /

Gorffennaf ac y byddai swyddogion TG ar gael ar ddiwrnod y Cyngor Blynyddol i gynorthwyo aelodau i gael mynediad i'w dogfennau. Ychwanegodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd y gofynnid i bob aelod lenwi holiadur ar gychwyn y Cyngor newydd ynglŷn â lefel eu hyder wrth ddefnyddio technoleg.

Trafodwyd beth fyddai'n digwydd i'r cyfarpar presennol. Nodwyd mai argymhelliad y Grŵp Ffocws oedd gofyn i'r aelodau ddychwelyd y cyfarpar i'r Cyngor a'u bod yn cael eu rhoi fel rhodd i ysgolion fel eu bod yn parhau i gael eu defnyddio fel adnodd y Cyngor.

Mynegodd rhai aelodau eu siomedigaeth na roddid cynnig i'r aelodau brynu'r teclynnau am bris rhesymol. Nodwyd nad oedd y Ipads mewn cyflwr da bellach ac y byddai'n llawer gwell gan yr ysgolion dderbyn offer mwy cyfredol.

Awgrymwyd, gan y gofynnwyd i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ddod i benderfyniad ynglŷn â'r teclynnau, y byddai'n synhwyrol iddo yntau hefyd wneud y penderfyniad ynglŷn â beth fydd yn digwydd i'r Ipads. Atebodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y byddai'n rhaid iddo wirio hynny, ond yr hoffai i'r aelodau gynnig eu hargymhelliad cyn bod hynny'n digwydd.

#### **PENDERFYNWYD**

- 1. Cefnogi penderfyniad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd i ddewis y Microsoft Surface Pro 4 fel y teclyn electronig mwyaf addas ar gyfer aelodau o fis Mai ymlaen.**
- 2. O ran y teclynnau presennol, argymhell i'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd roi'r dewis i aelodau:-**
  - Brynu'r Ipads am bris rhesymol.**
  - Eu dychwelyd i'r Cyngor i'w glanhau o bob data a'u rhoi yn rhodd i ysgol.**
  - Barhau i'w defnyddio am y tro, gan ddewis un o'r ddau opsiwn uchod pan ddaw'r adeg iddynt uwchraddio i'r Surface Pro 4.**

#### **5. SIARTER AELODAU**

Cyflwynwyd – adroddiad yn diweddarau'r pwyllgor ar y cais am y Siarter Aelodau gan gyfeirio'n benodol at y gwaith o ddatblygu disgrifiadau o rolau aelodau.

Nodwyd mai un o'r prif fanteision o greu a mabwysiadu'r 'disgrifiad o rolau' fyddai'r budd i aelodau newydd o'u defnyddio fel canllaw i ddeall yn well y gwahanol rolau ar wahanol bwyllgorau. Gwahoddwyd y pwyllgor i gyflwyno'r 'disgrifiad o rolau' ar eu ffurf drafft presennol fel argymhelliad i'r Cyngor llawn newydd eu mabwysiadu'n ffurfiol yn ei gyfarfod ym Mehefin. Gofynnwyd hefyd i'r pwyllgor ystyried cyhoeddi'r 'disgrifiad o rolau' drafft ar y Porth aelodau fel arf i gynorthwyo'r aelodau newydd ym mis Mai, cyn eu mabwysiadu yn ffurfiol gan y Cyngor newydd.

Awgrymwyd y dylai'r 'disgrifiad o rolau' gynnwys cymal bod rhaid i aelodau fynychu cyfarfodydd, ond nodwyd y byddai hynny'n tramgwyddo'r rheol 6 mis, sef Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sy'n darparu bod cyfnod aelod o'r Cyngor yn dod i ben 6 mis ar ôl ei bresenoldeb diwethaf mewn cyfarfod o'r Cyngor, os na chymeradwyir yr absenoldeb gan yr awdurdod.

Nododd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd mai mater o anogaeth ydoedd a bod 'mynychu holl gyfarfodydd a phwyllgorau perthnasol ...' wedi'i restru fel un o'r swyddogaethau penodol yn y disgrifiad o rôl a chyfrifoldebau Aelod o'r Cyngor. Holwyd a fyddai'n bosib' amlygu'r swyddogaeth yma mewn print bras, ond nodwyd y gallai hynny danseilio'r swyddogaethau eraill ar y rhestr, sydd yr un mor bwysig.

Awgrymodd y Rheolwr Gwasanaethau Democraidd y gellid edrych ar Bapur Gwyn diweddar Llywodraeth Cymru ar ddiwygio llywodraeth leol er mwyn gweld oes modd cryfhau'r disgwyliadau o safbwynt presenoldeb.

#### **PENDERFYNWYD**

- 1. Cyflwyno'r 'disgrifiad o rolau' ar eu ffurf drafft presennol fel argymhelliad i'r Cyngor llawn newydd eu mabwysiadu'n ffurfiol yn ei gyfarfod ar 15 Mehefin, 2017.**
- 2. Cyflwyno'r 'disgrifiad o rolau' ar eu ffurf drafft presennol ar y Porth aelodau hyd iddynt gael eu mabwysiadu'n ffurfiol gan y Cyngor llawn.**

#### **6. CYDNABYDDIAETH ARIANNOL I AELODAU ETHOLEDIG**

Cyflwynwyd – adroddiad yn diweddarau'r pwyllgor ar faterion cydnabyddiaeth ariannol ac yn ceisio eu barn ar argymhellion i'r Cyngor newydd ynglŷn â'r hyn y dylid ei dalu ym mlwyddyn gyntaf y Cyngor newydd.

Cyfeiriwyd at brif bwyntiau Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror, a gofynnwyd am farn y pwyllgor ar ddau o'r pwyntiau hynny'n benodol, sef:-

- Pob cyngor unigol i benderfynu gosod Aelodau Cabinet ar un o ddwy lefel, Lefel 1 (£29,100) neu Lefel 2 (£26,200).
- Pob cyngor unigol i benderfynu gosod Cadeiryddion Pwyllgorau ar un o ddwy lefel, Lefel 1 (£22,100) neu Lefel 2 (£20,100).

Atgoffwyd yr aelodau fod y Cyngor wedi penderfynu gwneud taliadau ar Lefel 1 y llynedd. Nodwyd, wrth wneud penderfyniad eleni, y dylai'r Cyngor ystyried, nid yn unig ar ba lefel i osod y swyddi gwahanol, ond hefyd a oes gwahaniaeth yn y cyfrifoldebau a ysgwyddir gan Gadeiryddion Pwyllgorau (yn cynnwys y rhai sy'n derbyn cydnabyddiaeth arbennig ar hyn o bryd a'r rhai sydd ddim).

#### **PENDERFYNWYD argymell i'r Cyngor y dylid:-**

- 1. Cadw lefel cyflogau Aelodau Cabinet a Chadeiryddion Pwyllgorau ar Lefel 1 ym mlwyddyn gyntaf y Cyngor newydd.**
- 2. Cynnal arolwg o lwyth gwaith yr holl gadeiryddion ymhen blwyddyn i weld a oes lle i amrywio'r penderfyniad neu ail-ystyried y lefelau cyflog.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 11.40 y.b.

---

**CADEIRYDD**

# Eitem 7

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanethau Democrataidd
DYDDIAD	11 eg Gorffennaf 2017
PWNC	Rhaglen waith y Pwyllgor gwasanaethau Democrataidd
PWRPAS	Blaenoriaethu materion ar gyfer llunio rhaglen waith y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod
AWDUR	Vera Jones, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

1. Cyflwynwyd adroddiad blynyddol y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Geraint Owen, i gyfarfod y Cyngor llawn ar 15fed o Fehefin, 2017. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r hyn sydd wedi ei ddatblygu hyd yma i gefnogi aelodau, a hynny dros gyfnod y Cyngor blaenorol. Yn ogystal, roedd yn amlinellu yr elfennau sy'n parhau i gael eu datblygu ac a fydd yn debygol o fod yn ffocws rhaglen waith y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd dros y misoedd a'r blynyddoedd i ddod.
2. Mae copi llawn o'r adroddiad i'w weld ar safle we'r Cyngor trwy'r ddolen isod:  
<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/s12533/Adroddiad%20Blynyddol%20y%20Pennaeth%20Gwasanaethau%20Democrataidd%202016-17.pdf?LLL=1>  
Mae'r rhan o'r adroddiad sy'n amlinellu'r elfennau sy'n parhau i gael eu datblygu yn Atodiad A isod. Mae rhai diweddariadau eisoes i'w hadrodd – gwelir diweddariad lle'n briodol fesul eitem wedi eu dangos mewn *italics* yn yr atodiad.
3. Yn ogystal, er mwyn cynorthwyo aelodau'r Pwyllgor i ffurfio rhaglen waith synhwyrol, gohebwyd â'r holl aelodau er mwyn gofyn am unrhyw faterion yr oedden yn dymuno eu cyflwyno ar ran eu cyd-aelodau. Sylwadau am y ddarpariaeth Technoleg Gwybodaeth oedd yr ymatebion a dderbyniwyd.
4. Yn ychwanegol, awgrymaf fod yr eitemau isod angen sylw ar y rhaglen waith yn ystod y flwyddyn:
  - i. Adroddiadau blynyddol aelodau etholedig
  - ii. Ymgynghoriad ar lwfansau aelodau
  - iii. Cyfweiliadau datblygiad personol
  - iv. Siarter Aelodau
  - v. Materion TG
  - vi. Adroddiad blynyddol Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
5. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor, mae rhaglen ddrafft wedi ei llunio yn Atodiad B. Noder nad yw'r holl eitemau wedi eu amserlennu, a bydd yn angenrheidiol addasu'r rhaglen i ymateb i faterion sy'n codi yn ystod y flwyddyn.
6. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd flaenoriaethu'r materion sydd angen sylw gan y Pwyllgor er mwyn addasu a chadarnhau'r blaen raglen waith ar gyfer y flwyddyn.



## **ATODIAD A**

### **A beth sydd ar y gweill nesaf yn 2017/18 ac ymlaen?**

Croesawyd 24 o aelodau newydd i'r Cyngor yn dilyn etholiadau Mai 2017, ac er mwyn eu cefnogi hwy a'r holl aelodau, mae'r cynlluniau isod ar y gweill:

- ❖ Anwytho dwys/ hyfforddiant – cynhaliwyd dyddiau croesawu ar gyfer y 9fed a 10fed o Fai eleni, ac adborth cychwynnol yn galonogol. Yn ogystal, mae rhaglen lawn o hyfforddiant a chyflwyno gwybodaeth wedi ei datblygu ar gyfer y flwyddyn eisoes. Bydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd yn asesu y rhaglen hyfforddiant yn ystod y flwyddyn gyntaf er mwyn sicrhau fod y materion cywir yn cael eu hadnabod a'u blaenoriaethu ar gyfer rhaglen y flwyddyn ganlynol ac i'r dyfodol.  
*(Dyddiau croesawu wedi eu cynnal eisoes – eitem pwyllgor i asesu beth aeth yn dda a beth sydd angen ei addasu. Cyflwyniad hefyd ar ddysgu a datblygu yn ystod cyfarfod y Pwyllgor)*
- ❖ Datblygu'r model craffu newydd a'i weithredu – Penderfynodd y Cyngor ar y model craffu newydd yn ei gyfarfod ar yr 2il o Fawrth, 2017. Bydd gwaith penodol yn digwydd i sefydlu a gweithredu'r trefniadau newydd yn 2017/18.  
*(Gweithredu yn cychwyn yn awr)*
- ❖ Trefniadau hawlio costau teithio a derbyn slipiau cyflog ar lein – Dros yr wythnosau diwethaf mae trefniadau wedi eu sefydlu i alluogi aelodau i hawlio costau teithio ar lein. Bydd gallu hawlio trwy ddulliau electroneg yn galluogi aelodau i fod yn prosesu eu hawliadau o gartref ar amser sy'n gyfleus iddynt, ac yn lleihau ar y gwaith papur i bawb.  
*(Mae trefniadau yn eu lle ar gyfer i bob aelod hawlio costau teithio trwy'r system hunan wasanaeth.)*
- ❖ Ymateb pellach i Bapur Gwyn y Llywodraeth ar Ddiwygio Llywodraeth Leol
- ❖ Ymgynghori yn barhaus gydag Aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd er mwyn adnabod meysydd i fod yn fwy effeithiol a gwella gwasanaeth
- ❖ Mabwysiadu disgrifiadau o rolau ar gyfer gwahanol swyddogaethau sydd gan aelodau. Mae aelodau o'r Pwyllgor Gwasanaethau Democraidd wedi gweithio i ddatblygu disgrifiadau o rolau ar gyfer y gwahanol gyfrifoldebau sydd gan aelodau. Fe'u datblygwyd ar gyfer sicrhau arweiniad clir ac eglurder o'r disgwyliadau mewn gwahanol rolau i aelodau. Bydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cyngor Llawn ar 15fed o Fehefin i'w fabwysiadu.  
*(Cafodd y disgrifiadau o rolau eu mabwysiadu ar y 15fed o Fehefin 2017 gan y Cyngor Llawn)*
- ❖ Sicrhau bod aelodau'n deall gofynion cyrff allanol o ran ymrwymiad i'r gwaith pe baent yn cael eu henwebu arnynt.  
*(Trefniadau ar gyfer adnabod aelodau i fod yn cynrychioli'r Cyngor ar gyrff allanol yn digwydd yn awr, gan gynnwys cadarnhau y gofynion adrodd fesul corff).*

- ❖ Parhau i ddatblygu'r Porth aelodau. Datblygiad diweddar ar gyfer cyfnod y Cyngor newydd yw'r Porth Aelodau, sef 'mewnrwyd' i'r aelodau lle bo gwybodaeth defnyddiol ar gael mewn un lle canolog. Bwriedir ymgynghori yn gyson gyda'r aelodau er mwyn gwella'r adnodd hwn yn barhaus.  
*(porth aelodau wedi ei ddatblygu ar gyfer Mai 2017, bydd gwaith cyson ar ei ddatblygu dros y misoedd/ blynyddoedd i ddod)*
- ❖ Rhoi cymorth i aelodau yn eu rol fel aelodau lleol. Mae'r mater yma wedi ei adnabod gan aelodau cyfredol, a bwriedir ceisio datblygu ffordd i aelodau ffeilio gwybodaeth sy'n berthnasol iddynt o ran eu gwaith ward, yn hytrach na'u gwaith gyda'r Cyngor yn unig.
- ❖ Mae'r ymgynghoriad cyfredol ar Ffiniau Etholaethol gan y y Comisiwn Ffiniau ar y gweill, a phan ddaw canlyniad yr ymgynghoriad yn glir, bydd yn angenrheidiol paratoi ar gyfer ei weithredu o 2022 ymlaen.  
*(Ymateb y Cynor i gam cyntaf y gwaith wedi ei gadarnhau yng nghyfarfod y Cyngor ar 15 Mehefin, 2017. Disgwylir y bydd ymateb a chynnigion ffurfiol gan y Comisiwn Ffiniau ddechrau 2018, bydd angen ymateb iddynt bryd hynny).*
- ❖ Parhau i ymgynghori gydag aelodau, yn arbennig aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ynghylch sut i wella'r gefnogaeth a roddir iddynt

## **ATODIAD B**

<b>11/07/2017</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Cyflwyniad i rol y Pwyllgor</li><li>• Rhaglen waith y flwyddyn</li><li>• Dyddiau Croesawu</li><li>• Dysgu a Datblygu</li></ul>
<b>19/09/2017</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Adroddiadau blynyddol aelodau etholedig</li><li>• Cyfweiliadau datblygiad personol</li><li>• Siarter Aelodau</li></ul>
<b>05/12/2017 *</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Ymgynghoriad ar lwfansau aelodau</li><li>• Siarter Aelodau</li></ul>
<b>12/04/2018</b>
<ul style="list-style-type: none"><li>• Adroddiad blynyddol Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd</li><li>• Adroddiadau blynyddol aelodau etholedig</li></ul>

\* dyddiad yn debygol o newid

Heb eu rhaglennu hyd yma

Materion TG

Hunan-wasanaeth a'r Porth aelodau

Papur Gwyn y Llywodraeth ar Ddiwygio Llywodraeth Leol

Cymorth i aelodau lleol

# Eitem 9

<b>Cyfarfod</b>	<b>Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd</b>
<b>Dyddiad</b>	<b>11 Gorffennaf, 2017</b>
<b>Pwnc</b>	<b>Hyfforddi a Datblygu Aelodau</b>
<b>Pwrpas</b>	<b>Diweddaru'r pwyllgor ar y ddarpariaeth gyfredol a'r hyn sydd ar y gweill a cheisio arweiniad a sylwadau ar ddatblygiadau pellach</b>
<b>Awdur</b>	<b>Carey Cartwright Rheolwr Dysgu a Datblygu</b>

1. Un rhan allweddol o rôl y pwyllgor hwn, o sicrhau cefnogaeth briodol i aelodau'r Cyngor yn eu gwaith, yw cadw llygad ar a chynnig gwelliannau i'r ddarpariaeth ar gyfer hyfforddi a datblygu aelodau.
2. Bu'r pwyllgor yn gwneud hyn cyn yr etholiad a bu cryn drafod gydag aelodau am gynnwys y rhaglen hyfforddi a datblygu, yn arbennig felly ar gyfer flwyddyn gyntaf y Cyngor newydd. Arweiniodd hynny at drefniadau y dyddiau anwytho cychwynol newydd a weithredwyd yn fuan ar ôl yr etholiad (a fydd yndestun trafodaeth arall yng nghyfarfod y pwyllgor) a hefyd y rhaglen o sesiynau hyfforddi a datblygu aelodau ar gyfer y flwyddyn gyntaf.
3. Mae copi o'r rhaglen ar gyfer y flwyddyn hynny ynghlwm i'r adroddiad hwn fel Atodiad 1. Medrwn adrodd ar lafar yn y pwyllgor ar yr ymateb i'r ddarpariaeth hyd yma ond, wrth gwrs, mae'n ddyddiau cynnar gyda llawer o sesiynau ar faterion allweddol iawn eto i'w cynnal. Fodd bynnag, hyd yn oed ar yr adeg hon, byddai'n ddefnyddiol derbyn argraffiadau aelodau'r pwyllgor am yr hyn sydd wedi ei gynnig ac unrhyw anghenion na wnaed darpariaeth ar eu cyfer eto.
4. Un peth a oedd yn glir iawn o farn aelodau yn flaenorol oedd mai nid mewn hyfforddiant ffurfiol yn unig (cysiau ac ati) oedd y ddiddordeb mwyaf a gwnaed amryw o sylwadau am yr angen i sicrhau cefnogaeth llai ffurfiol ond fwy cyson i aelodau.
5. Mae hyn wedi ein harwain i geisio sefydlu darpariaeth ar gyfer mentora a chymell. Mae Atodiad 2 yn adrodd ar y ddau ddarpariaeth hynny, yr hyn y maent yn ei olygu a'r gwahaniaethau rhyngddynt.
6. Soniwyd am y ddarpariaeth bosib hynny yn y Stodin Dysgu a Datblygu yn y Dyddiau Anwytho ac, yn fuan, byddwn yn cylchredeg trwch yr aelodau i weld faint o ddiddordeb sydd mewn derbyn cefnogaeth o'r fath. Mae rhai aelodau eisoes wedi mynegi diddordeb a rydym wrthi yn trefnu darpariaeth briodol. Yn eu mysg mae aelodau newydd sydd wedi cael cynnig cyfweiliad 1:1 cychwynol gydag uwch swyddog er mwyn adnabod anghenion datblygu.
7. Fel sydd yn amlwg o Atodiad 2, mae rôl mentor a rôl cymhellydd yn wahanol a bydd yn bwysig sicrhau mai cyd-gynghorwyr mwy profiadol fyddai'n gweithredu fel mentoriaid. O ran hynny, mae dau beth ar y gweill. Yn gyntaf, rydym wedi cysylltu â phob grwp gwleidyddol i geisio enwau cynghorwyr mwy profiadol sydd yn barod i weithredu fel mentoriaid i aelodau llai profiadol. Yn ail, rydym yn trefnu hyfforddiant ar gyfer y rhai sydd yn awyddus i weithredu fel mentoriaid er mwyn eu cynorthwyo i fod yn effeithiol yn y rôl.
8. Gwahoddior sylwadau ac arweiniad gan y pwyllgor ar y rhaglen hyfforddi ac ar ddatblygiad y trefniadau mentora a chymell ar gyfer aelodau.

# RHAGLEN HYFFORDDIANT AELODAU ETHOLEDIG CYNGOR GWYNEDD

## GWYNEDD COUNCIL'S ELECTED MEMBERS' TRAINING PROGRAMME

### 2017/18

Dyddiad ac amser / Date and time		Digwyddiad / Event	Lleoliad / Location	Arweinwyr / Leaders
Mai 26 May	(10:00 – 12:00)	Cyflwyniad I Gynllunio – Sesiwn I Holl Aelodau	Siambr DAFYDD ORWIG Chamber	Gareth Jones / Rhun ApI Gareth
	(1:30 – 3:30)	Hyfforddiant I Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio / Training for Members of the Planning Committee	Siambr HYWEL DDA Chamber	Gareth Jones / Rhun ApI Gareth
Mehefin 13 June	(diwrnod cyfan/all day)	Anwytho Awdurdod Tân / Fire & Rescue Service Induction	I'w gadarnhau / To be confirmed	I'w gadarnhau / To be confirmed
Mehefin 7 June  Tud. 13	(10:00 – 12:30)	Cod Ymddygiad / Code of Conduct	Siambr DAFYDD ORWIG Chamber  Siambr Dafydd Orwig	Iwan Evans/Sion Huws
	(10:00 – 12:30)	Gweithdy Anffurfiol Technoleg Gwybodaeth / Informal IT Workshop (niferoedd cyfyngedig o 12 / limited numbers of 12)	Ystafell Ddysgu Enlli Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu/The Learning Centre, Caernarfon	Ken Richardson
	(2:00 – 4:00)	Cyllideb y Cyngor / The Council's Budget (niferoedd yn gyfyngedig I 12 / limited numbers of 12)	Ystafell Dwryd Room, Galw Gwynedd, Penrhyndeudraeth	Dafydd LI Edwards & Dewi Morgan
Mehefin 14 June	(10:00 – 12:30)	Swyddogaethau'r Pwyllgor Archwilio / The Audit Committee's Functions (Ar gyfer Aelodau'r Pwyllgor Archwilio / For Members of the Audit Committee)	Ystafell Ddysgu ENLLI Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu, The Learning Centre, Caernarfon	Luned Fôn Jones & Dewi Morgan
	(1:30 – 3:30)	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 / Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015	Ystafell Ddysgu ENLLI Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu, The Learning Centre, Caernarfon	Janet Roberts

Mehefin 26 June	(10:00 – 12:00)	Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol / Wellbeing of Future Generations (Wales) Act 2015	Ystafell DWYRYD Room, Penrhyndeudraeth	Janet Roberts
Gorffennaf 5 July	(10:00 – 12:00)	Ffordd Gwynedd	Siambr Dafydd Orwig Chamber	Dilwyn O Williams
	(2:00 – 4:00)	Cod Ymddygiad / Code of Conduct (ail sesiwn l'r rhai a fethodd 7/6/16 / 2 <sup>nd</sup> session for those who missed 7/6/16)	Siambr Dafydd Orwig Chamber	Iwan Evans/Sion Huws
	(2:30 – 4:30)	Cyllideb y Cyngor / The Council's Budget (niferoedd yn gyfyngedig I 12 / limited numbers of 12)	Ystafell Ddysgu Enlli Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu/The Learning Centre, Caernarfon	Dafydd Edwards/Dewi Morgan
Gorffennaf 14 July	(10:00 – 11:30)	Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi / Information about People : Your Responsibility	Ystafell Deudraeth Room, Penrhyndeudraeth	Helen Mary Parry (Rheolwr Gwybodaeth / Information Manager)
Gorffennaf 19 July	(10:00 – 11:30)	Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi / Information about People : Your Responsibility	Ystafell Ddysgu ENLLI Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu/The Learning Centre	Helen Mary Parry (Rheolwr Gwybodaeth / Information Manager)
	(1:30 – 4:00)	Arwain a Chyfrannu at Bwyllgorau Effeithiol / Leading and Contributing to Effective Committees	Siambr Dafydd Orwig Chamber neu/or Siambr Hywel Dda Chamber	Arwel Ellis Jones a Iwan Evans
	(1:30 – 3:30)	Gweithdy Anffurfiol Technoleg Gwybodaeth / Informal IT Workshop (i'r rhai a fethodd 7/6/16 / to those who were unable to attend on 7/6/16) (Niferoedd cyfyngedig o 12 / limited numbers of 12)	Ystafell DWYRYD Room, Penrhyndeudraeth	Ken Richardson

Gorffennaf 21 July	(10:00 – 12:30)	Gwneud I Gyfryngau Cymdeithasol weithio I Gynghorwyr / Making Social Media work for Councillors)	Ystafell Ddysgu MAWDDACH Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu/The Learning Centre, Caernarfon	Sion Gwynfryn Williams, Sion Huws
Medi 7 September	(10:00 – 1:00)	Côd Ymddygiad – Sesiwn Dilyniant / Code of Conduct – Follow-up session	Siambwr Hywel Dda Chamber	Rhun ApGareth/Sion Huws
	(2:00 – 4:00)	Egwyddorion Addysg / Education Principles	Siambwr DAFYDD ORWIG Chamber	Mai Bere
Medi 15 September	(10:00 – 12:30)	Gwneud I Gyfryngau Cymdeithasol weithio I Gynghorwyr / Making Social Media work for Councillors)	Ystafell Deudraeth Room, Penrhyndeudraeth	Sion Gwynfryn Williams, Sion Huws
Tud. 15	(10:00 – 11:30)	Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi / Information about People : Your Responsibility	Ystafell PRYSOR Room, Penrhyndeudraeth	Helen Mary Parry (Rheolwr Gwybodaeth / Information Manager)
	(1:00 – 3:30)	Arwain yn Ddiogel / Safe Leadership (Ar gyfer Aelodau newydd ac Aelodau sydd heb fod ar yr Hyfforddiant / For New Members & Members who have not previously attended)	Ystafell Deudraeth Room, Penrhyndeudraeth	Catrin Love / Gail Warrington
Medi 27 September	(10:00 – 12:00)	Egwyddorion Addysg / Education Principles	Ystafell DEUDRAETH Room, Penrhyndeudraeth	Mai Bere
	(1:00 – 3:00)	Polisi Gosod a Digartrefedd / Housing Allocation Policy & Homelessness Duties	Ystafell DEUDRAETH Room, Penrhyndeudraeth	Arwel Owen
Medi 29 September	(9:30 – 12:30)	Darllen yn Gyflym / Speed Reading	Siambwr HYWEL DDA Chamber	Clare Forrest
	(1:30 – 4:30)	Darllen yn Gyflym / Speed Reading	Siambwr HYWEL DDA Chamber	(Structured Learning)

Hydref 4 October	(1:30 – 4:00)	Gwneud I Gyfryngau Cymdeithasol weithio I Gynghorwyr / Making Social Media work for Councillors)	Ystafell Ddysgu MAWDDACH Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu/The Learning Centre, Caernarfon	Sion Gwynfryn Williams, Sion Huws	
Tachwedd 3 November	(trwy dydd/all day)	Ymgysylltu â Chynghorwyr newydd bob Rhanbarth / A Regional Induction Event for New Councillors	Canolfan Fusnes CONWY Business Centre	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru Welsh Local Government Association	
Tachwedd 8 November	(1:30 – 3:30)	Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb / Your Responsibility for Equality	Ystafell Ddysgu ENLLI Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu/The Learning Centre	Delyth Gadlys Williams	
Tud. 16	Tachwedd 15 November	(10:00 - ????)	Rhiantu Corfforaethol / Corporate Parenting	Ystafell Ddysgu ENLLI Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu, The Learning Centre, Caernarfon	Marian Parry Hughes
		(1:30 – 3:30)	Cyfrifoldebau Tai a Phartneriaethau yng Ngwynedd / Housing Responsibilities & Partnerships in Gwynedd	Ystafell Ddysgu ENLLI Learning Room, Y Ganolfan Ddysgu, The Learning Centre, Caernarfon	Arwel Wyn Owen
Tachwedd 22 November	(10:00 – 12:00)	Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb / Your Responsibility for Equality	Ystafell DEUDRAETH Room, Penrhyndeudraeth	Delyth Gadlys Williams	
	(1:30 – 3:30)	Polisi Gosod a Digartrefedd / Housing Allocation Policy & Homelessness Duties	Ystafell Ddysgu ENLLI Learning Room, Caernarfon	Arwel Wyn Owen	
Rhagfyr 1 December	(10:00 – 12:30)	Gwneud i Gyfryngau Cymdeithasol weithio I Gynghorwyr / Making Social Media work for Councillors)	Ystafell Deudraeth, Penrhyndeudraeth	Sion Gwynfryn Williams, Sion Huws	
Rhagfyr 13 December	(10:00 – 12:00)	Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb / Your Responsibility for Equality	Ystafell Deudraeth Room, Penrhyndeudraeth	Delyth Gadlys Williams	



Ionawr 10 January	(10:00 – 12:00)	Rhiantu Corfforaethol / Corporate Parenting (I’r rhai sydd methu mynychu 15/11/17 / To those who are unable to attend on 15/11/17)	Ystafell Deudraeth Room, Penrhyndeudraeth	Marian Parry Hughes
	(1:30 – 4:00)	Arwain yn Ddiogel / Safe Leadership	Ystafell Deudraeth Room, Penrhyndeudraeth	Catrin Love & Gail Warrington
Ionawr 31 January	(10:00 – 12:00)	Rôl y Gymraeg yn y Gymuned / The role of Welsh in the Community	Ystafell Deudraeth Room, Penrhyndeudraeth	Debbie Anne Williams-Jones a Gwenllian Mair Williams (Hunaniaith)
	(1:30 – 4:00)	Diogelu Plant / Safeguarding Children	Ystafell Deudraeth Room, Penrhyndeudraeth	Dafydd Paul & Clare Trappe
Chwefror 21 February	(am)	- - RHYDD / FREE -		
	(1:30 – 3:30)	Rôl y Gymraeg yn y Gymuned / The role of Welsh in the Community	Siambr HYWEL DDA Chamber, Caernarfon	Debbie Anne Williams-Jones a Gwenllian Mair Williams (Hunaniaith)
Mawrth 21 March	(am / pm)	- RHYDD / FREE -		
Dyddiad i’w gadarnhau / Date to be confirmed		Deall Gwynedd – Gwybodaeth am y Sir / Learning about Gwynedd – Information about the County	Emyr Edwards	Fforymau Ardal



Dyddiadau ychwanegol yn y Calendr / Additional dates in the Calendar

# Cymhelliant a Mentora i Aelodau Etholedig

## Pwrpas

Mae Cymhelliant a Mentora yn rhan o ddarpariaeth ehangach, i gefnogi Aelodau Etholedig i gyflawni eu rolau yn effeithiol er mwyn gwneud y gorau dros bobl Gwynedd.

Mae'r gefnogaeth yma ar gael i bob aelod a bydd yn cael ei deilwrio i adlewyrchu anghenion unigol (e.e. rolau penodol megis Aelod Cabinet, Cadeiryddion, aelodau o Bwyllgorau penodol ayyb).

## Cymhelliant a Mentora

Mae'r ddwy dechneg yma yn cael eu cydnabod yn fyd eang fel dulliau datblygol eithriadol o werthfawr ag effeithiol ar gyfer cefnogi datblygiad unigolion ym mhob maes.

Maent yn ddulliau sy'n seiliedig ar berthynas proffesiynol un i un sy'n galluogi unigolion i adlewyrchu ar brofiadau ac ystyried opsiynau ar gyfer gweithredu. Mae'r sesiynau yn dilyn strwythur pendant ac yn creu gofod i unigolion drafod materion yn agored mewn awyrgylch cyfrinachol a diogel. Yr unigolyn sy'n penderfynu ar ffocws y sesiynau ac ar y nifer sydd angen eu cynnal.

Yn syml iawn, mae **Cymhelliant** yn cefnogi unigolion i **adnabod datrasiadau eu hunain** tra mae **Mentora** yn cynnwys elfen o **arweiniad gan rhywun profiadol** yn y maes.

Bydd y ddarpariaeth Cymhelliant yn defnyddio cyfuniad o gymhellwyr Mewnol ac allanol sy'n gymwysedig. Bydd bydd y gefnogaeth Mentora yn cael ei ddarparu'n fewnol, gan Aelodau profiadol sydd wedi derbyn Hyfforddiant i fentora eraill.

CYMHELLIANT	MENTORA
<p><b>Beth yw Cymhelliant 1:1?</b></p> <p>Perthynas broffesiynol rhwng 2 berson.</p> <p>Cymhellwyr wedi eu cymhwyso yn broffesiynol. Mae'r Cymhellydd yn cefnogi'r Cymhellai (y person sydd yn cael ei gymell) i ystyried yr hyn sydd angen ei gyflawni, a chyrraedd datrasiadau ei hun. Mae hefyd yn gyfle i adlewyrchu ar brofiadau, creu eglurdeb a magu hyder.</p> <p><b>Sut fydd hyn yn digwydd (yn fras)</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Trafod anghenion datblygol i adnabod os yw cymhelliant yn briodol</li><li>Unigolyn yn gwneud cais am gymhelliant</li><li>Paru gyda Cymhellydd</li><li>Cynnal cyfarfod cychwynnol</li><li>Cytuno ar beth fydd eich ffocws, amllder sesiynau</li><li>Cynnal y sesiynau</li><li>Adlewyrchu</li></ul>	<p><b>Beth yw Mentora?</b></p> <p>Perthynas broffesiynol rhwng 2 berson.</p> <p>Mentoriaid wedi eu hyfforddi yn broffesiynol. Y Mentor yn brofiadol mewn maes penodol a'r Mentai (y person sydd eisiau cael ei fentora) eisiau datblygu yn y maes yma. Bydd y Mentor yn defnyddio ei brofiad i alluogi y Mentai i ddatblygu ei hun.</p> <p><b>Sut fydd hyn yn digwydd (yn fras)</b></p> <ul style="list-style-type: none"><li>Adnabod Mentoriaid addas o fewn grwpiau pleidiau neu o fewn arbenigedd (e.e. pwyllgor arbennig megis cynllunio)</li><li>Datblygu'r unigolion yma fel Mentoriaid (Hyfforddiant gan Brifysgol Bangor)</li><li>Adnabod aelodau (Mentai) sydd eisiau mentor<ul style="list-style-type: none"><li>Aelodau newydd</li><li>Aelodau mewn rôl newydd</li><li>Aelodau i'w datblygu ar gyfer y dyfodol</li></ul></li><li>Paru Mentor gyda Mentai</li><li>Cynnal cyfarfod cychwynnol i drafod anghenion datblygol a chytuno ar ffocws</li><li>Cynnal y sesiynau</li><li>Adlewyrchu</li></ul>

